GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

# Priority Supplier Programme






# Welcome to the Priority Supplier Programme

NHS Wales is embarking on an innovative early payment programme for its suppliers, which will create an additional income stream for the Health Boards and Trusts across Wales to reinvest in essential services.

Through the implementation of new payment technology and more effective processes, the programme will offer suppliers early settlement of their invoices in exchange for a discount directly proportional to how quickly the payment is made.

The programme is designed to be a win-win for both NHS Wales and its suppliers. It crucially allows us to develop better relationships with suppliers and vastly improved efficiency across our purchase to pay processes.

Key benefits for our suppliers include:

- ✓ Improved cashflow through the early payment of invoices
- ✓ Prioritised invoice processing and dedicated query resolution
- ✓ Reduced cost of collection and associated financial risk
- ✓ Reduced payment volatility
- ✓ Closer collaboration and improved working relationships
- ✓ Enhanced client satisfaction and additional visibility across NHS Wales




**Mark Roscrow**
*Director of Procurement Services, NWSSP*

"Implementing the Priority Supplier Programme will ensure that NHS Wales is very efficient in its payment practices which is good news for its suppliers and providers."

© Oxygen Finance Limited | Private and Confidential

# Working with NHS Wales

Seven Health Boards and three Trusts provide care to three million patients and employ more than 72,000 staff in Wales. The NHS Wales Shared Services Partnership provides customer-focused support functions and services, such as Accounts Payable and Procurement. Together they manage an annual spend of over £4 billion on goods and services.




The Priority Supplier Programme will be rolled out in phases, working with each Health Board and Trust in order to ensure that purchase to pay processes are robust, consistent and reflect leading practice.

It provides an opportunity to use working capital to support suppliers and we aim to make it easier for suppliers to do business with us. We want the Priority Supplier Programme to represent the way we do business going forward, and as such participation in the Programme will also be considered in future sourcing and contacting activity.



**Margaret Foster**
*Chair of NWSSP Partnership Committee*

"I look forward to seeing the long-term benefits of the Priority Supplier Programme and the range of advantages it will bring to NHS Wales."

# Participating in the Programme

Invoices received from Priority Suppliers will be paid on approval, rather than waiting for the contractual due date. In return for paying ahead of your pre-existing terms, a small rebate is deducted.


### How does it work?

Participating suppliers continue to invoice at the full amount/agreed pricing. Invoices are typically e-mailed in a machine readable format.

Invoices receive additional attention, priority processing and dedicated expediting and query resolution.

When paid ahead of contact terms, the rebate is calculated dynamically and is proportionate to the number of days we accelerate your payment (the number of elapsed days between the receipt of your invoice and the date it is paid).

A debit note, detailing the rebate calculation and values, is issued electronically to ensure easy reconciliation in your accounts receivable/billing systems.




The rebate is only applied if payment is made ahead of terms - 'No acceleration, No rebate'.



**Lynne Hamilton**
*Director of Finance Abertawe Bro Morgannwg University Health Board*

"This Priority Supplier Programme is a win-win. Businesses will get paid quicker and NHS Wales generates a new income stream that will help protect front-line service delivery."

# Features and Benefits

### Prioritised invoice processing

As a Priority Supplier your invoices will be processed on a fast-track basis. The Programme provides a transparent and visible incentive to process all invoices from participating suppliers as quickly as possible, ensuring faster and more consistent payment.

### Nominated contacts within Procurement and Accounts Payable

Priority Suppliers will receive dedicated email and telephone contact details within the Accounts Payable department to ensure your invoices are processed correctly and help with any queries you may have.

### Streamlined Invoicing Process

NHS Wales is committed to e-invoicing, and streamlining internal Accounts Payable processes. This provides assured delivery of invoices to the "right place" so they are visible, date of submission is confirmed and recorded, the risks of errors in data transfer are reduced and potential issues are identified more quickly, allowing early resolution and faster processing.

### Increased visibility and promotion within NHS Wales Health Boards & Trusts

As well as initial recognition with our programme board and local finance teams, Priority Suppliers will receive recognition on our public website, leading to increased visibility both inside and outside NHS Wales.

### Case studies

As a Priority Supplier, there are opportunities to case study the work you are doing with NHS Wales and include it in our marketing materials. We would be happy to discuss any proposal with you.

### Overdue invoice review

On a supplier joining the programme, we will review all outstanding or overdue invoices and try to clear them as quickly as possible. By starting the programme with a clean slate, we will be helping to ensure all new invoices are processed as quickly as possible and any issues are identified visible and addressed quickly.

### Quarterly Statement Reconciliation

Each quarter, we will carry out a statement reconciliation to demonstrate proactive management of the supplier account. Addressing any issues identified quickly will help to maintain strong and productive supplier relationships.

# FAQs

**How will the early payment impact the invoice submission process?**

The existing invoicing process will remain the same.

**How will early payment impact the payment process?**

You will be paid automatically by NHS Wales but the payment will be made as soon as an invoice is authorised, rather than waiting for the payment due date. NHS Wales will calculate the early payment rebate and deduct this from the approved amount. Along with the payment, NHS Wales will issue you with a debit note to the value of the deducted rebate.

**Will my existing contracted terms and conditions change?**

The Terms and Conditions for the Priority Supplier Programme vary the payment terms applied to your Contracts; In all other respects, your Contracts remain in full force and effect.

**How much will it cost to join?**

There are no service charges, joining fees or hidden charges. By joining you agree that in return for paying you ahead of pre-existing terms, we will apply an agreed rebate which will be deducted at an individual invoice level. The rebate is entirely dynamic.

**What system changes do I need to make to my systems?**

None at all, the existing invoicing process will not change.

**How can I be sure you will charge the correct fees?**

The process will be transparent and the relevant information (the percentage fee and the number of days your payment has been accelerated) will be printed on the debit note to enable you to validate all calculations.



**Andy Butler**
*Director of Finance and Corporate Services, NWSSP*

"We are committed to supporting our business partners and the Priority Supplier Programme will enable NHS Wales to further support its Supply Chain."

## For further information:

**Call now:**
029 2166 0929

**For any service enquiries email:**
psp.ap@wales.nhs.uk

NHS Wales is supported in the Priority Supplier Programme by Oxygen Finance.

Oxygen is a leading technology and professional services provider that enables organisations to unlock value within their supply chain through paying suppliers ahead of contracted terms. The Oxygen solution is voluntary for suppliers and boosts their cash flow and, therefore, the local economy. Our clients enjoy more engaged supplier relationships, a significant new source of revenue and purchase-to-pay (P2P) efficiencies.

## Am ragor o wybodaeth:

**Ffoniwch nawr:**
029 2166 0929

**Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y gwasanaeth, e-bostiwch:**
psp.ap@wales.nhs.uk

Mae Oxygen Finance yn cefnogi Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth GIG Cymru.

Mae Oxygen Finance yn ddarparwr gwasanaethau technoleg a phroffesiynol blaenllaw, sy'n galluogi sefydliadau i ryddhau gwerth yn eu cadwyn gyflenwi trwy dalu cyflenwyr yn gynt nag oes rhaid yn ôl telerau eu contract. Mae datrysiad Oxygen yn wirfoddol i gyflenwyr. Mae'n gwella'u llif ariannol ac, yn sgil hynny, yr economi leol. Mae ein cleientiaid yn manteisio ar berthnasau cyflenwi gwell, ffrwd ariannol sylweddol newydd a phrosesau Prynu i Dalu mwy effeithlon.

# Cwestiynau cyffredin

### Sut y bydd taliadau cynnar yn effeithio ar y broses o gyflwyno anfoneb?

Bydd y broses anfonebu yn aros yr un fath.

### Sut y bydd taliadau cynnar yn effeithio ar y broses dalu?

Cewch chi eich talu yn awtomatig gan GIG Cymru ond caiff y taliad ei wneud cyn gynted ag y caiff anfoneb ei hawdurdodi, yn hytrach nag aros tan y dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus.  Bydd GIG Cymru yn cyfrifo'r gostyngiad talu cynnar ac yn ei ddidynnu o'r swm a gymeradwywyd. Ynghyd â'r taliad, bydd GIG Cymru yn darparu nodyn debyd sy'n gyfwerth â'r gostyngiad talu cynnar.

### Fydd telerau ac amodau fy nghontract presennol yn newid?

Mae telerau ac amodau Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth yn golygu y bydd telerau talu contractau yn amrywio. Ymhob agwedd arall, bydd eich contract yn parhau yn ei gyflawn rym a'i nerth.

### Faint fydd cost ymuno?

Nid oes ffioedd gwasanaeth, ffioedd ymuno na chostau cudd. Trwy ymuno, rydych chi'n caniatáu inni bennu gostyngiad y cytunir arno a gaiff ei ddidynnu o bob anfoneb unigol, yn gyfnewid am eich talu'n gynt na thelerau presennol eich contract. Mae'r disgownt yn gwbl ddeinamig.

### Pa newidiadau oes rhaid imi eu gwneud i fy systemau?

Dim, ni fydd y prosesau anfonebu presennol yn newid.

### Sut y galla i fod yn sicr y byddwch chi'n codi'r ffioedd cywir?

Bydd y broses yn dryloyw, a chaiff y wybodaeth berthnasol (ffi'r canran a chan faint o ddiwrnodau y mae'ch taliad wedi'i gyflymu) ei hargraffu ar y nodyn debyd fel y gallwch chi ddilysu pob cyfrifiad.



**Andy Butler**
*Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Ariannol a Chorfforaethol, Cydwasanaethau GIG Cymru*

"Rydym ni wedi ymrwymo i gefnogi'n partneriaid busnes ni a bydd Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth yn galluogi GIG Cymru i gefnogi ei Gadwyn Gyflenwi ymhellach."

# Nodweddion a Manteision

## Blaenoriaethu anfonebu

Fel Cyflenwr â Blaenoriaeth, caiff eich anfonebau eu prosesu ar sail llwybr carlam. Mae'r rhaglen yn cynnig cymhelliant tryloyw ac amlwg i brosesu pob anfoneb oddi wrth gyflenwyr sy'n cymryd rhan mor gyflym â phosibl, gan sicrhau y caiff taliadau eu gwneud yn gyflymach ac yn fwy cyson.

## Cysylltiadau Enwebedig yn adrannau Caffael a Chyfrifon Taladwy

Caiff Cyflenwyr â Blaenoriaeth gyfeiriad e-bost a rhif ffôn pwrpasol yn adran Cyfrifon Taladwy er mwyn sicrhau y caiff eich anfonebau eu prosesu'n gywir ac i'ch galluogi i ddod o hyd i staff i ateb eich ymholiadau.

## Symleiddio Prosesau Anfonebu

Mae GIG Cymru yn ymrwymedig i e-anfonebu, ac i symleiddio prosesau mewnol Cyfrifon Taladwy. Mae hyn yn sicrhau bod anfonebau yn mynd i'r "lle iawn". Trwy hyn byddant yn weladwy, bydd y dyddiad cyflwyno wedi ei gadarnhau a'i gofnodi, mae llai o risg y bydd gwallau wrth drosglwyddo data a chaiff problemau posibl eu nodi yn gyflymach. Bydd hyn oll yn sicrhau y caiff problemau eu datrys yn gynt ac y caiff anfonebau eu prosesu'n gyflymach.

## Bydd gennych fwy o amlygrwydd ym Myrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a chewch chi eich hyrwyddo ynddynt

Ynghyd â chydnabyddiaeth gan ein Bwrdd Rhaglen a thimau cyllid lleol yn y lle cyntaf, caiff Cyflenwyr â Blaenoriaeth gydnabyddiaeth ar ein gwefan gyhoeddus hefyd, a fydd yn cynyddu'ch amlygrwydd yn y GIG a'r tu hwnt iddo.

## Astudiaethau Achos

Fel Cyflenwyr â Blaenoriaeth, mae cyfleoedd i lunio astudiaeth achos ar sail y gwaith yr ydych chi'n ei wneud yn GIG Cymru chynnwys yr astudiaeth achos honno yn ein deunydd marchnata Byddem ni'n hapus i drafod unrhyw gynnig â chi.

## Adolygu Anfonebau Hwyr

Ar ôl i gyflenwr ymuno â'r rhaglen, byddwn yn mynd ati i adolygu pob anfoneb sydd heb ei thalu a cheisio talu mor gyflym â phosibl. Trwy ddechrau ar y rhaglen â llechen lân, bydd modd sicrhau y caiff pob anfoneb newydd ei phrosesu mor gyflym â phosibl, ac y caiff unrhyw broblemau a'u nodi a'u datrys yn gyflym.

## Cysoni Cyfriflenni Chwarterol

Bob chwarter, byddwn yn cysoni cyfriflenni mewn ymgais i reoli cyfrifon cyflenwyr yn rhagweithiol. Bydd mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn gyflym yn helpu i gynnal perthnasau cryf a chynhyrchiol â chyflenwyr.

# Cymryd rhan yn y rhaglen

Caiff anfonebau gan ein Cyflenwyr â Blaenoriaeth eu talu ar ôl cael eu cymeradwyo, yn hytrach nag aros tan y dyddiad talu a nodir yn y contract. Yn gyfnewid am dalu'n gynt na'ch telerau presennol, caiff gostyngiad bach ei ddidynnu.


## Sut mae'n gweithio?

Bydd cyflenwyr sy'n cymryd rhan yn parhau i anfonebu am y swm llawn / y pris y cytunwyd arno. Caiff anfonebau eu hanfon mewn e-bost fel arfer ac ar ffurf y mae modd i beiriant ei darllen.


Bydd yr anfonebau yn derbyn sylw ychwanegol ynghyd â chael eu blaenoriaethu a'u cyflymu. Yn ogystal, bydd gwasanaeth pwrpasol i ateb ymholiadau.

Wrth dalu'n gynt nag oes rhaid yn ôl y contract, caiff y gostyngiad ei bennu gan nifer y diwrnodau y cafodd eich taliad ei gyflymu (nifer y diwrnodau sy'n mynd heibio rhwng derbyn eich anfoneb a'r dyddiad y caiff ei thalu).

Rhoddir nodyn debyd yn electronig, fydd yn manylu ar sut y cyfrifwyd y disgownt a'i gwerth, er mwyn sicrhau bod modd cysoni'ch systemau cyfrifon derbyniadwy / bilio.




'Dim ond os caiff y taliad ei wneud yn gynnar y caiff y gostyngiad ei bennu - 'Dim cyflymiad, Dim disgownt'.




**Lynne Hamilton**
*Cyfarwyddwr Cyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg*

"Bydd pawb ar ei ennill yn sgil Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth. Caiff busnesau eu talu'n gyflymach a bydd GIG Cymru yn cynhyrchu llif incwm newydd a fydd yn helpu i amddiffyn y ddarpariaeth o wasanaethau rheng flaen."

# Gweithio gyda GIG Cymru

Mae saith Bwrdd Iechyd a thair Ymddiriedolaeth yn darparu gofal i dair miliwn o gleifion yng Nghymru ac yn cyflogi mwy na 72,000 o staff. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn darparu cymorth a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, fel Cyfrifon Taladwy a Chaffael. Gyda'i gilydd mae'r ddau wasanaeth hyn yn rheoli gwariant blynyddol o £4 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau.




Caiff Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth ei chyflwyno fesul cam, gan gydweithio â phob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau bod prosesau Prynu i Dalu yn gadarn ac yn gyson a'u bod yn adlewyrchu ymarfer blaenllaw.

Mae'n rhoi cyfle inni ddefnyddio cyfalaf gweithio i gefnogi cyflenwyr, a'n nod yw ei gwneud yn haws i gyflenwyr fasnachu â ni. Rydym am i Raglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth gynrychioli sut rydym yn cynnal ein busnes yn y dyfodol.
O ganlyniad i hynny caiff cymryd rhan yn y rhaglen ei ystyried wrth ffynonellu a chysylltu yn y dyfodol.



**Margaret Foster**
*Cadeirydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru*

"Rwy'n edrych ymlaen at weld buddion hirdymor Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth a'r llu o fanteision a ddaw i GIG Cymru yn ei sgil."

© Oxygen Finance Cyfyngedig | Preifat a Chyfrinachol 




# Croeso i Raglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth

Mae GIG Cymru yn cyflwyno rhaglen dalu cynnar ar gyfer ei gyflenwyr, a fydd yn creu ffrwd ychwanegol o incwm i'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau ledled Cymru y byddant yn medru ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn gwasanaethau hanfodol.

Trwy ddefnyddio technoleg dalu newydd a rhoi prosesau mwy effeithiol ar waith, bydd y rhaglen yn galluogi'r GIG i dalu anfonebau yn gynt, yn gyfnewid am ddisgownt yn ôl mor gyflym y gwneir y taliad.

Mae'r rhaglen wedi ei dylunio i fod yn fanteisiol i GIG Cymru ac i'w gyflenwyr. Mae'n ein galluogi i feithrin perthnasau gwell â chyflenwyr a gwella effeithlonrwydd trwy gydol ein prosesau Prynu i Dalu.

Dyma'r prif fanteision i'n cyflenwyr:

- ✓ Llif ariannol gwell yn sgil derbyn taliadau yn gynnar
- ✓ Caiff anfonebau eu blaenoriaethu a bydd gwasanaeth pwrpasol i ateb ymholiadau
- ✓ Bydd costau casglu yn llai a bydd llai o risg ariannol
- ✓ Bydd llai o gyfnewidioldeb o ran derbyn taliadau
- ✓ Bydd modd cydweithio'n agosach a bydd perthnasau gweithio gwell
- ✓ Bydd cleientiaid yn fwy bodlon a chânt fwy o amlygrwydd ledled GIG Cymru



**Mark Roscrow**
*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael, Partneriaeth Cydwasanaethau Cymru*

"Bydd rhoi Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth ar waith yn sicrhau bod ymarferion talu GIG Cymru yn effeithiol iawn. Mae hyn yn newyddion da i'w gyflenwyr a'i ddarparwyr."

GIG CYMRU NHS WALES | Partneriaeth Cydwasanaethau Shared Services Partnership

# Rhaglen Cyflenwyr â Blaenoriaeth

